



**ETHOLIAD
CYFFREDINOL
SENEDD Y DU 2017**

Paid colli allan
Gwna'n siŵr dy fod wedi cofrestru erbyn 22 Mai
gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Cofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017

Adroddiad ar etholiad cyffredinol Senedd y DU a
gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017

Gorffennaf 2017

Fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fersiwn Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Cynnwys

Crynodeb: cofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol 2017.....	4
Cofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017..	6
Cofrestru etholiadol yn y DU	6
Maint y gofrestr etholiadol	9
Cofrestru ar-lein.....	11
Ceisiadau cofrestru etholiadol dyblyg.....	13
Cofrestru a phleidleisio mewn mwy nag un ardal	16
Cydbwyso adnoddau cofrestru etholiadol.....	18
Gwneud y broses gofrestru etholiadol yn fwy unedig	21

Crynodeb: cofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol 2017

Data allweddol

- **Cofrestrodd** nifer amcangyfrifedig o **46.8 miliwn i bleidleisio** yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin 2017 ac o'r nifer honno pleidleisiodd 68.8%.
- Hon oedd y **nifer fwyaf o bleidleiswyr ar gyfer digwyddiad pleidleisio ledled y DU**, gyda thua 500,000 yn fwy ohonynt nag yn etholiad 2015.
- Cafodd mwy na **2.9 miliwn o geisiadau i gofrestru i bleidleisio** eu gwneud ym Mhrydain Fawr rhwng cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 18 Ebrill (y byddai'n gofyn i'r Senedd gymeradwyo etholiad cyffredinol) a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar 22 Mai.
- Cafodd mwy na **96% o geisiadau eu gwneud ar-lein**, gan gynnwys 612,000 ar y diwrnod olaf ar gyfer gwneud cais.
- Rhwng 18 Ebrill ac 22 Mai, **gwnaed dros ddwy ran o dair (69%) o geisiadau ar-lein gan bobl o dan 34 oed**.

Prif faterion

- Mae'r **gwasanaeth cofrestru ar-lein wedi sicrhau gwell mynediad o lawer i etholiadau ym Mhrydain Fawr** ers ei gyflwyno ym mis Mehefin 2014, ond nid yw ar gael i bobl yng Ngogledd Iwerddon eto.
- Unwaith yn rhagor, mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi tynnu sylw at **effaith weinyddol ac ariannol sylweddol prosesu ceisiadau dyblyg** a wneir gan bobl sydd eisoes wedi cofrestru i bleidleisio. Mae amcangyfrifon cychwynnol Swyddogion Cofrestru Etholiadol o gyfran y ceisiadau dyblyg wedi amrywio o 30% o'r cyfanswm a wnaed mewn rhai ardaloedd i 70% mewn eraill.
- Er y caiff pobl, yn ôl y gyfraith, gofrestru i bleidleisio mewn mwy nag un man o dan rai amgylchiadau, **ydddengys fod rhai pleidleiswyr wedi cyfaddef iddynt bleidleisio fwy nag unwaith yn yr etholiad cyffredinol, sy'n peri pryder**, ac sy'n drosedd.

Meysydd allweddol i'w gwella ymhellach

- **Dylai'r gwasanaeth cofrestru etholiadol ar-lein gynnwys** Gogledd Iwerddon cynn gynted â phosibl.
- **Mae angen cymryd camau brys i leihau graddau ac effaith weinyddol ceisiadau cofrestru dyblyg o ran Swyddogion Cofrestru Etholiadol** cyn bwrw unrhyw bleidlais arall yn y dyfodol.
- Dylid ystyried dulliau o **atal pleidleisio ddwywaith** mewn etholiadau cyffredinol yn gyflym.

- Mae angen i'r **cyllid sydd ar gael i Swyddogion Cofrestru Etholiadol** adlewyrchu'n well faint o waith sydd ei angen i brosesu ceisiadau cofrestru etholiadol cyn unrhyw bleidlais fawr.
- **Dylai'r broses gofrestru etholiadol fod yn fwy cysylltiedig â** gwasanaethau cyhoeddus eraill, er mwyn ei gwneud hi hyd yn oed yn symlach i gofrestru i bleidleisio i'r cyhoedd ac yn fwy effeithlon i Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Dylai hyn gynnwys integreiddio ceisiadau mewn trafodion gwasanaeth cyhoeddus eraill a gwneud gwell defnydd o ddata cenedlaethol i nodi pleidleiswyr newydd neu bobl sy'n symud tŷ.
- **Mae angen archwilio dulliau cofrestru awtomatig ymhellach**, gan dynnu ar brofiadau gwledydd eraill.

Cofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017

1.1 Cafodd etholiad cyffredinol Senedd y DU ei gynnal ar 8 Mehefin 2017. Hwn yw'r cyntaf o adroddiadau statudol y Comisiwn Etholiadol ar yr etholiad, sy'n canolbwyntio ar gofrestru pleidleiswyr, sydd wrth graidd system etholiadol ddiogel ac effeithon. Rhydd ein dadansoddiad o ddata allweddol ar geisiadau cofrestru etholiadol a'r cofrestri etholiadol, a nodafaterion ac argymhellion ar gyfer gwella a moderneiddio'r system ymhellach, sydd euhanegn ar frys yn ein barn ni.

1.2 Yn y DU, mae'r setliad datganoli sy'n datblygu yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban bwerau i ddatblygu polisïau a deddfwriaeth cofrestru etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban fel sy'n berthnasol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda holl lywodraethau'r DU er mwyn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau newydd o wneud cofrestri etholiadol yn fwy cywir a chyflawn.

Cofrestru etholiadol yn y DU

1.3 Nid oes gan y Deyrnas Unedig gofrestr etholiadol genedlaethol. Caiff cyfanswm o 380 o gofrestri etholiadol gwahanol eu llunio a'u cadw gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr, a cheir un gofrestr ar gyfer Gogledd Iwerddon, a gaiff ei llunio a'i chadw gan y Prif Swyddog Etholiadol.

1.4 Bu system gofrestru etholiadol unigol ar waith ym Mhrydain Fawr ers 2014, a defnyddiwyd system debyg yng Ngogledd Iwerddon ers 2002. Unigolion eu hunain sy'n gyfrifol am wneud cais i gofrestru i bleidleisio, a rhaid iddynt gyflwyno gwybodaeth sy'n cadarnhau pwy ydynt (fel dyddiad geni a rhif yswiriant gwladol) fel rhan o'u cais. Caiff y wybodaeth a roddir ei chadarnhau cyn i'w henwau gael eu hychwanegu at y gofrestr etholiadol.

1.5 Cafodd gwasanaeth cofrestru ar-lein ei gyflwyno ym Mhrydain Fawr ar yr un pryd â'r system gofrestru etholiadol unigol yn 2014. Gall unigolion wneud cais i gofrestru ar-lein ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio, neu drwy gwblhau a dychwelyd ffurflen gais bapur. Sut bynnag yr eir ati i gofrestru, er bod data o geisiadau cofrestru yn cael eu cadarnhau yn erbyn cofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau, caiff pob cais ei bennu'n lleol gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol unigol. Y dyddiad cau i gofrestru i bleidleisio ar gyfer yr etholiad cyffredinol oedd dydd Llun 22 Mai 2017.

1.6 Yn ôl y gyfraith, mae'n dal i fod yn ofynnol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr gynnal canfas blynyddol o bob eiddo yn ei ardal gofrestru er mwyn archwilio'r cofnodion ar ei gofrestr etholiadol a nodi pleidleiswyr sydd wedi symud neu oedd heb gofrestru'n flaenorol. Yn 2006 rhoddwyd y gorau i'r canfas blynyddol yng Ngogledd Iwerddon a chyflwynwyd proses gofrestru barhaus yn ei le. Rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi cofrestr ddiwygiedig erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn, gan gyhoeddi unrhyw ddiweddariadau pellach ar ddiwrnod gwaith cyntaf bob mis a chyn etholiadau.¹

Ein hymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd

1.7 Cynhaliodd y Comisiwn Etholiadol ymgyrch i godi ymwybyddiaeth pobl o'r etholiad a sut i gymryd rhan, gan gynnwys y ffaith bod angen cofrestru erbyn 22 Mai. Llywiwyd ein strategaeth ymgyrchu gan yr angen i wneud y mwyaf o'r amser prin oedd ar gael ac roedd iddi bedair elfen:

- Defnyddio dulliau hysbysebu a fu'n llwyddiannus yn y gorffennol
- Creu partneriaethau proffil uchel yn y cyfryngau cymdeithasol â Facebook, Instagram, Snapchat a Nextdoor
- Sicrhau sylw yn y cyfryngau ar gyfer cerrig milltir allweddol
- Cefnogi sefydliadau partner - gan gynnwys Llywodraeth y DU a llywodraeth leol, elusennau a chyrrff anllywodraethol - drwy gydlynu gweithgareddau a rhoi adnoddau iddynt eu defnyddio

1.8 Ein nod oedd cyrraedd cynulleidfa gyffredinol a grwpiau nas cofrestrir yn ddigonol, gan gynnwys myfyrwyr, pobl sy'n symud tŷ, y rhai rhwng 18 a 34 oed, pobl sy'n rhentu eiddo preifat, dinasyddion y DU sy'n byw dramor a phersonél y lluoedd arfog. Ymhlith y llwyfannau a ddefnyddiwyd ledled Prydain Fawr roedd teledu, radio, cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion peiriant chwilio Google. Yng Ngogledd Iwerddon roedd y llwyfannau a ddefnyddiwyd yn cynnwys radio, cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion awyr agored a hysbysebion arddangos digidol.

1.9 Cafodd deunydd hysbysebu a fodolai eisoes ei ddiweddarau a gwnaethom greu hysbysebion radio a chymdeithasol newydd yn seiliedig ar y cysyniad 'paid colli dy gyfle' a ddefnyddiwyd mewn ymgyrchoedd blaenorol.

¹ Os cynhelir etholiad rhwng 1 Gorffennaf a 1 Rhagfyr, gellir gohirio cyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig tan 1 Chwefror y flwyddyn ganlynol.

Ffigur 1: Hysbyseb Facebook 'Un wythnos i fynd'



1.10 Roedd cyfyngiadau amser cyfleoedd cofrestru personél y lluoedd arfog a oedd yn gwasanaethu dramor a dinasyddion y DU a oedd yn byw dramor hyd yn oed yn fwy amlwg.

1.11 Gwnaethom weithio gyda Swyddfa'r Cabinet wneith gefnogi ein hymgyrch drwy hwyluso cefnogaeth gan bob adran wnaeth rannu ein negeseuon ar gyfrygu cymdeithasol a mewnrwydïau; a chynnal negeseuon atgoffa cofrestru leled GOV.UK gan gynnwys ar ddiwedd trafodion ar y platfform, megis ceisiadau am basport neu drwydded yrru.

1.12 Gwnaethom weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddarparu deunyddïau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Unedau a gyda'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad i ddarparu deunyddïau i lysgenadaethau a chonsyliaethau. Hefyd, llwyddwyd i dargedu'r ddau grŵp yn effeithiol drwy hysbysebion Facebook; gwnaethom ddiweddar deunydd hysbysebu a fodolai eisoes, gan barhau i'w fireinio er mwyn sicrhau bod y neges yn cyrraedd ein cynulleidfaoedd targed.

Ffigur 2: Hysbyseb Facebook y lluoedd arfog



Ffigur 3: Hysbyseb Facebook pleidleiswyr dramor



Maint y gofrestr etholiadol

1.13 Cofrestrodd nifer amcangyfrifedig o 46.8 miliwn i bleidleisio yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin 2017.² Hon oedd y nifer fwyaf o bleidleiswyr ar gyfer digwyddiad pleidleisio ledled y DU, gyda thua 500,000 yn fwy ohonynt nag yn etholiad cyffredinol 2015 a 300,000 yn fwy nag ar gyfer refferendwm yr UE yn 2016.

1.14 Hefyd, cynyddodd cyfanswm nifer y bobl a gofrestrwyd i bleidleisio ledled y DU tua 1.4 miliwn rhwng diwedd y canfas blynyddol ar 1 Rhagfyr 2016 ac etholiad mis Mehefin 2017. Dengys Siart 1 isod y newid o ran maint cofrestri etholiadol y DU ar gyfer digwyddiadau pleidleisio ledled y DU (gan gynnwys etholiadau cyffredinol Senedd y DU ac etholiadau Senedd Ewrop) ac ar ddiwedd y canfas blynyddol bob blwyddyn ers 2009.


1.15 Roedd peth gwahaniaeth ym maint y newid o ran pleidleiswyr etholaethol rhwng mis Mai 2015 a mis Mehefin 2017. Gwelodd pedair etholaeth gwmp yng nghyfanswm nifer y pleidleiswyr cofrestredig, ychydig dros 10% ers yr etholiad cyffredinol diwethaf (De Ilford, Gogledd Glasgow, Gogledd-ddwyrain Glasgow a Merthyr Tudful a Rhymni) tra gwelodd dau gynnydd o 10% neu fwy (Bridgwater a Gorllewin Gwlad yr Haf, a Gogledd-orllewin Leeds). Bridgwater a Gorllewin Gwlad yr Haf a welodd y cynnydd absoliwt mwyaf o 8,803 o bleidleiswyr tra cofnododd De Ilford y lleihad absoliwt mwyaf o 9,500 o bleidleiswyr.

1.16 Mae maint cofrestri etholiadol yn amrywio dros amser ac roedd hefyd newidiadau o ran y nifer a gofrestrwyd i bleidleisio yn y cyfnod byrrach rhwng

² Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar ran Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin a gyhoeddwyd yn ei Phapur Briffio [General Election 2017: results and analysis](#) (Mehefin 2016)

mis Rhagfyr 2016 a mis Mehefin 2017. Nid yw hyn yn syndod gan fod nifer y pleidleiswyr yn cynyddu cyn pleidlais fawr i adlewyrchu symudiad yn y boblogaeth, gan leihau'n aml iawn ar ôl y canfas dilynol. Felly, byddem yn disgwyl i ddwy set o gofrestri etholiad cyffredinol fod yn debycach (mewn cyfnod byr) na rhwng set o gofrestri mis Rhagfyr a'r rhai a ddefnyddir mewn etholiad cyffredinol.

Siart 1: Maint cofrestrau etholiadol y DU 2009-2017



1.17 Nid yw'n syndod felly i fwy o etholaethau weld cynnydd yn nifer y pleidleiswyr rhwng mis Rhagfyr a mis Mehefin ac nad oedd unrhyw leihad gymaint. Cafodd cynnydd o fwy na 15% ei gofnodi o ran nifer y pleidleiswyr yn etholaethau Bethnal Green a Bow, Poplar a Limehouse a Gogledd-orllewin Leeds. Bu cynnydd nodedig o fwy na 10% hefyd mewn etholaethau â nifer fawr o fyfyrwyr (Canterbury, Caergrawnt, Pafiliwn Brighton, Gorllewin Bryste a Chanol Leeds).

1.18 Yn ein papur briffio a gyhoeddwyd ar ôl etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2017, codwyd pryderon bod bron i 3,500 o bobl wedi mynd i orsaf bleidleisio i bleidleisio ond iddynt gael gwybod nad oeddent wedi cofrestru.³ Gwyddom fod 1,862 o bobl yng Ngogledd Iwerddon wedi cael

³ https://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/226970/Northern-Ireland-Assembly-election-March-2017-report-briefing-paper.pdf

eu troi i ffwrdd yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin am yr un rheswm. Er bod hyn yn lleihad sylweddol yn nifer y bobl na allent bleidleisio am nad oeddent wedi cofrestru'n gywir, roedd serch hynny'n siomedig na allai nifer sylweddol o bobl fwrw eu pleidlais.

Cofrestru ar-lein

1.19 Mae'r gwasanaeth cofrestru ar-lein wedi sicrhau gwell mynediad o lawer i etholiadau ym Mhrydain Fawr ers ei gyflwyno ym mis Mehefin 2014. Dengys data ar geisiadau a wnaed ar-lein fod nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2014. Rhwng 10 Mehefin 2014 a 30 Mehefin 2017 gwnaed 21,580,788 o geisiadau i gofrestru (sef 77.6% o'r holl geisiadau) ar-lein.

1.20 Unwaith eto dengys dadansoddiad o geisiadau i gofrestru ar-lein yr ymddengys fod nifer y ceisiadau yn gysylltiedig â pha mor agos yw digwyddiadau etholiadol proffil uchel. Cafodd mwy na 2.9 miliwn o geisiadau i gofrestru i bleidleisio eu gwneud rhwng cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 18 Ebrill (y byddai'n gofyn i'r Senedd gymeradwyo etholiad cyffredinol) a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar 22 Mai. Cafodd mwy na 96% o'r ceisiadau hyn eu gwneud gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein.


1.21 Ar 18 Ebrill gwnaed tua 146,810 o geisiadau ar-lein, o gymharu â 10,106 y diwrnod cynt. Ar 22 Mai, y diwrnod olaf i gofrestru, gwnaed cyfanswm o 612,543 o geisiadau ar-lein. Dengys Ffigur 4 ar dudalen 9 isod broffil ceisiadau cofrestru etholiadol gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein rhwng 1 Ebrill a 31 Mai 2017.

1.22 Dengys data manylach gan y gwasanaeth cofrestru ar-lein fod cofrestru ar-lein wedi bod yn hynod boblogaidd ymhlith rhai o'r grwpiau hynny sy'n llai tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio, gan gynnwys pobl ifanc a dinasyddion Prydeinig dramor. Cafwyd dros ddwy ran o dair (69%) o geisiadau ar-lein rhwng 18 Ebrill 2017 ac 22 Mai 2018 gan bobl o dan 34 oed. Roedd ceisiadau gan bobl dros 55 oed yn cyfateb i 8% o'r holl geisiadau a gafwyd.

Ffigur 4: Ceisiadau cofrestru etholiadol a wnaed rhwng 1 Ebrill a 31 Mai 2017

Applications breakdown

Show data from: to



Ffynhonnell: [gov.uk voter registration performance dashboard](https://www.gov.uk/voter-registration-performance)

1.23 Roedd ceisiadau digidol gan bleidleiswyr o dramor yn cyfrif am gyfran gymharol fach o'r cyfanswm (4%) ond gyda 117,609 o geisiadau o gymharu â chyfanswm o 263,902 o bleidleiswyr tramor yn y cofrestru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, mae'n amlwg bod cofrestru ar-lein yn adnodd pwysig a phoblogaidd i ddinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor.

Cofrestru ar-lein yng Ngogledd Iwerddon

1.24 Ar 12 Rhagfyr 2016 pasiodd Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfathrebu Electronig a Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2016 ddau Dŷ'r Cyffredin. Mae'r Rheoliadau yn caniatáu cyflwyno system gofrestru etholiadol ddigidol a ddaw i rym pan fydd y gofynion technegol angenrheidiol wedi'u bodloni ar ei chyfer yng Ngogledd Iwerddon.

1.25 Bwriad gwreiddiol y Prif Swyddog Etholiadol oedd lansio cofrestru ar-lein ddiwedd 2016. Fodd bynnag, dechreuodd nifer o anawsterau technegol ddoed i'r amlwg wrth brofi'r system, gan gynnwys sut y byddai'n cyd-fynd â'r porth ar-lein presennol ym Mhrydain Fawr. Felly gohiriwyd y lansiad tan ddechrau 2017.

1.26 Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Ionawr 2017 y byddai etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2017, gohiriwyd y Prif Swyddog Etholiadol gyflwyno cofrestru ar-lein fel y bwriadwyd ymhellach. Roedd hyn yn ddealladwy o ystyried bod nifer o anawsterau technegol yr oedd angen eu datrys o hyd cyn gweithredu. Mae bellach yn debygol y caiff cofrestru ar-lein ei gyflwyno yn ystod hydref 2017.

Camau nesaf: cyflwyno system gofrestru etholiadol ar-lein yng Ngogledd Iwerddon

Mae cofrestru etholiadol ar-lein wedi trawsnewid y broses o gael mynediad i etholiadau a refferenda ar gyfer pleidleiswyr ym Mhrydain Fawr, ac rydym am i'r Prif Swyddog Etholiadol fynd ati i gyflwyno system gofrestru etholiadol yng Ngogledd Iwerddon cyn gynted â phosibl.

Ceisiadau cofrestru etholiadol dyblyg

1.27 Ar hyn o bryd mae'r system gofrestru ar-lein yn galluogi pobl i wneud cais i gofrestru hyd yn oed os ydynt eisoes wedi cofrestru i bleidleisio. Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y gwasanaeth cofrestru ar-lein a'r cofrestru etholiadol, a gedwir ar wahân ar gronfeydd data lleol gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol systemau meddalwedd reoli. Mae hyn yn golygu na all y systemau gwahanol gyfathrebu â'i gilydd yn uniongyrchol ar hyn o bryd ac felly nid yw'n bosibl nodi nac atal y fath geisiadau dyblyg yn awtomatig.

1.28 Ar ôl refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016, gwnaethom dynnu sylw at ddata a oedd yn dangos bod 38% o'r ceisiadau a wnaed yn ystod yr ymgyrch yn rhai dyblyg. Am ei bod mor rhwydd gwneud cais i gofrestru ar-lein, o gymharu ag anhawster cysylltu â thîm gwasanaethau etholiadol awdurdod lleol dros y ffôn neu drwy e-bost i gadarnhau a oedd rhywun wedi cofrestru'n barod, gwelwyd llawer o bobl yn dewis gwneud cais arall.

1.29 Gwnaethom weithio gyda Llywodraeth y DU, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Chymdeithas Aseswyr yr Alban cyn etholiadau mis Mai ac etholiad cyffredinol mis Mehefin i ddiweddarau negeseuon ar ein holl wefannau a safle cofrestru i bleidleisio GOV.UK er mwyn egluro nad oedd angen i bleidleiswyr wneud cais arall os oeddent eisoes wedi cofrestru i bleidleisio. Eglurodd ein gwefan, os oedd pleidleiswyr wedi derbyn cerdyn pleidleisio ar gyfer yr etholiadau lleol ddydd Iau 4 Mai, neu wedi pleidleisio ynddynt, nad oedd angen iddynt wneud cais arall ar gyfer etholiad cyffredinol y DU. Hefyd ychwanegodd Swyddfa'r Cabinet dudalen newydd at ddechrau'r broses gofrestru ar-lein er mwyn tynnu sylw defnyddwyr at y neges hon cyn y gallent barhau i wneud cais.

1.30 Er hyn, mae amcangyfrifon cychwynnol Swyddogion Cofrestru Etholiadol o gyfran y ceisiadau dyblyg a gafwyd cyn etholiad cyffredinol 2017 wedi amrywio o 30% o'r cyfanswm a wnaed mewn rhai ardaloedd i 70% mewn eraill. Rydym wrthi'n casglu data gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar geisiadau dyblyg a ddylai roi ffigur mwy cywir ar gyfer y cyfnod cyn yr etholiad cyffredinol. Hyd yn oed heb y data manwl hynny, mae'r gwahaniaeth rhwng nifer y ceisiadau a wnaed rhwng 1 Rhagfyr 2016 a 22 Mai 2017 (tua 4.9 miliwn) a'r newid net yn nifer y pleidleiswyr ar y cofrestru yn y cyfnod hwnnw (tua 1.4 miliwn o gofnodion cofrestr wedi'u hychwanegu) yn awgrymu bod cyfran sylweddol o geisiadau yn debygol o fod wedi bod yn rhai dyblyg. Fe wnaeth Swyddogion Cofrestru Etholiadol adrodd fod rhai ceisiadau gan

bleidleiswyr oedd am newid eu dewis pleidleisio ar gyfer yr etholiad – er enghraifft, o bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio i bleidlais bost neu ddirprwy.

1.31 Unwaith yn rhagor, mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi tynnu sylw at effaith weinyddol sylweddol prosesu ceisiadau dyblyg cyn yr etholiad cyffredinol. Rhaid i bob cais unigol gael ei archwilio'n ofalus er mwyn cadarnhau p'un a yw'n gais dyblyg ai peidio, er y gall rhai systemau rheoli etholiadol a ddefnyddir gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol helpu i reoli'r llif gwaith hwn yn fwy effeithlon.

1.32 Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau gwasanaethau etholiadol o fewn awdurdodau lleol hefyd wedi codi pryderon y cafwyd y cynnydd sylweddol mewn gwaith er mwyn prosesu ceisiadau cofrestru cyn etholiad cyffredinol mis Mehefin wrth i lawer hefyd redeg etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017 ac wedyn baratoi ar gyfer yr etholiad cyffredinol.

1.33 Unwaith eto, cawsom adborth gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a phleidleiswyr yn uniongyrchol y byddai'n fwy defnyddiol petai modd i bobl ddefnyddio'r system gofrestru ar-lein i weld a oeddent eisoes wedi llwyddo i gofrestru i bleidleisio cyn cyflwyno cais newydd. Caiff cyfleusterau tebyg eu cynnig i bleidleiswyr mewn democratiaethau tebyg eraill yn barod, gan gynnwys Awstralia, Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon.

1.34 Rydym am ddechrau gweithio gyda Llywodraeth y DU yn gyflym er mwyn ystyried sut y gellid gwella systemau presennol ac ymdrin â'r effaith weinyddol a gwastraff ymdrech Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau yn sgil ceisiadau dyblyg. Cyn hyn rydym wedi argymhell y dylai cyfleuster 'chwilio' ar-lein gael ei gynnig i bleidleiswyr weld a ydynt eisoes wedi cofrestru, ac rydym hefyd yn awyddus i ystyried opsiynau ar gyfer gwella'r gwasanaeth cofrestru ar-lein presennol. Er enghraifft, gallai fod yn bosibl i'r gwasanaeth ar-lein hysbysu ymgeiswyr os ydynt eisoes wedi gwneud cais ar-lein cyn iddynt wneud cais arall i fynd i'r afael â'r borblem wrth ei gwraidd..

Ffigur 5: Gwriad cofrestru ar-lein Comisiwn Etholiadol Awstralia

Check my enrolment

You can check your current electoral enrolment by entering your details below.

For privacy reasons, your electoral enrolment will only be confirmed if the details you enter are an **exact match** to your details on the electoral roll.

If you cannot confirm your electoral enrolment online it doesn't mean you are not on the electoral roll. Please [contact the AEC](#) and we can check your enrolment details.

If you have recently completed an enrolment form please allow a few days for the AEC to receive your form, process it and update the electoral roll. If you recently enrolled or changed your address online you can [check the progress](#) of your enrolment by using the receipt number you were provided with.

Fields marked with an asterisk (*) are required. See the [help page](#) for assistance.

*Given name/s (e.g. Michael John)

*Family name (e.g. Jones)

*Postcode

*Suburb or Locality

*Street name

*Verification code

This facility is provided to the public by the AEC in conjunction with the state and territory electoral authorities.

Enrolment data current as at: 25 June 2017

Ffigur 6: Gwriad cofrestru ar-lein Comisiwn Etholiadol Seland Newydd

Check Your Enrolment

Please enter your name, date of birth and the New Zealand address where you believe you are currently enrolled. This may be a previous address if you've recently submitted an enrolment form to update your enrolment details.

You can use the RealMe "Login" link above if you have a RealMe account and have previously registered to update your enrolment details online.

Search details

* Surname Please enter your surname

* Forenames

Check this box if you have no forenames

* Date of birth DD / MM / YYYY

* Street address

* Suburb, Town or RD

City, postcode

All marked fields are required.

Legal Notice

This service is provided to allow you to enrol or check your own enrolment details for the sole purpose of checking if they are correct, and updating them if they are not.

Use of this service for any other purpose, particularly if it is unrelated to registration as an elector, is prohibited.

For more details, see [Privacy](#) and [Terms of Use](#).

Ffigur 7: Gwriad cofrestru ar-lein Gweriniaeth Iwerddon

Check the Register

Application Forms | Leagan Gaeilge

Check the Register of Electors:

Checking if you are registered to vote has never been easier!

City, County or City and County Councils now allow you to check if you're registered to vote through the online Check the Register service. Simply select your local area to continue...

Select your Province and then your County/City Council:

Province:

County/City Council:

Register of Electors 2017 - 2018

Currently showing the register for 2017 - 2018 which came into force on 15 February 2017.

Check the Register - Register of Electors Online enquiries is provided by Local Authorities with the support of the LGMA

1.35 Mae yna hefyd gamau mwy uniongyrchol y gall y Comisiwn, Llywodraeth y DU a llywodraethau ac asiantaethau cyhoeddus eraill eu cymryd er mwyn helpu i leihau nifer y ceisiadau dyblyg.

1.36 Ymhlith y camau hyn mae adolygu gweithgareddau ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd a negeseuon ar wefan y llywodraeth a gwefannau eraill sy'n cyfeirio at y gwasanaeth cofrestru ar-lein, a gwella geiriad y gwasanaeth cofrestru ar-lein er mwyn atgoffa ymgeiswyr nad oes angen iddynt efallai wneud cais arall. Dylai Llywodraeth y DU hefyd ystyried y ffordd orau o gysylltu ffurflenni cais pleidlais absennol a gwybodaeth a geir ar wefan [Dy Bleidlais Di](#) y Comisiwn, yn hytrach nag awgrymu y gellid defnyddio'r

gwasanaeth cofrestru ar-lein i wneud cais am bleidlais drwy'r post neu bleidlais drwy ddirprwy.

Camau nesaf: lleihau nifer y ceisiadau dyblyg a'u heffaith

Rydym am weithio gyda llywodraethau'r DU er mwyn ystyried sut i ymgorffori gwiriadau mwy awtomatig yn y gwasanaeth cais ar-lein fel ei bod yn glir os yw rhywun wedi gwneud cais eisoes.

Byddwn yn gweithio gyda holl lywodraethau'r DU a Swyddogion Cofrestru Etholiadol er mwyn adolygu gweithgareddau ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd a negeseuon ar wefan y llywodraeth a gwefannau eraill sy'n cyfeirio at y gwasanaeth cofrestru ar-lein, a gwella geiriad y gwasanaeth cofrestru ar-lein er mwyn atgoffa ymgeiswyr nad oes angen iddynt efallai wneud cais arall. Dylai'r newidiadau hyn gael eu datblygu a'u gweithredu cyn gynted â phosibl fel eu bod ar waith mewn da bryd i gofrestru cyn etholiadau mis Mai 2018 fan bellaf.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda chyflenwyr y Feddalwedd Reoli Etholiadol, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Llywodraeth y DU er mwyn ystyried a nodi ffyrdd o wella'r broses o nodi a phrosesu ceisiadau dyblyg er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff, ddylai gynnwys archwilio sut gallai gwell cyfathrebu rhwng cofrestrau ar wahân wella hyn.

Cofrestru a phleidleisio mewn mwy nag un ardal

1.37 Yn y diwrnodau yn dilyn yr etholiad, honnodd nifer o bobl ar gyfryngau cymdeithasol eu bod wedi pleidleisio ddwywaith yn yr etholiad cyffredinol. Cawsom gryn dipyn o ohebiaeth yn cyfeirio at y sylwadau hyn – ar adeg ysgrifennu, roeddem wedi cael 38 o lythyrau gan ASau yn codi pryderon etholwyr, yn ogystal â 1,013 o e-byst a 15 o alwadau ffôn gan aelodau o'r cyhoedd yn cyfeirio at adroddiadau yn y cyfryngau am yr honiadau hyn. Ry'n ni'n cymryd yr adroddiadau yma o ddiffrfi, ond ar hyn o bryd nid oes fawr dystiolaeth bod hyn yn digwydd yn eang.

1.38 O dan rai amgylchiadau, mae modd i rywun, yn ôl y gyfraith, fod wedi cofrestru i bleidleisio mewn mwy nag un man. Er mwyn gwneud hynny, rhaid bod yr ymgeisydd yn byw yn y ddau gyfeiriad: mae byw yn yr etholaeth neu'r ardal etholiadol wrth wraidd yr hawl i unrhyw bleidleisiwr gael ei gofrestru yno, a rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn byw yno cyn penderfynu ar ei gais.

1.39 Mae sawl grŵp o bobl a all fod â hawl i gofrestru i bleidleisio mewn mwy nag un man, gan gynnwys myfyrwyr sy'n byw mewn gwahanol gyfeiriadau yn ystod y tymor; pobl sy'n gorfod gweithio oddi cartref, lle maent yn byw fel

arfer, ac sydd ag ail gartref oherwydd hynny; a rhai pobl sy'n berchen ar ail gartref ac yn byw yno.

1.40 Caiff pobl sydd wedi cofrestru mewn dau gyfeiriad pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn y naill gyfeiriad neu'r llall, ar yr amod nad ydynt yn yr un ardal llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'n drosedd i bleidleisiwr fwrw mwy nag un bleidlais ar ei ran ei hun yn etholiad cyffredinol Senedd y DU neu mewn refferendwm. Bydd unrhyw un sy'n cyflawni'r drosedd hon yn wynebu dirwy anghyfyngedig yng Nghymru a Lloegr, neu ddirwy o hyd at £5,000 yn yr Alban.

1.41 Gwnaethom atgoffa achwynwyr y dylai unrhyw un â thystiolaeth y gallai rhywun fod wedi pleidleisio ddwywaith roi gwybod i'r heddlu yn y naill ardal pleidleisio neu'r llall neu gysylltu â Tacio'r Tacle, yr elusen lle gellir rhoi gwybod am droseddau'n ddiennw. Gwnaethom hefyd gynghori heddluoedd y DU ar sut i ymchwilio i honiadau y gallai rhywun fod wedi pleidleisio ddwywaith, gan gynnwys cael y copi wedi'i farcio o'r gofrestr gan y Swyddogion Canlyniadau perthnasol. Mae'r gofrestr wedi'i marcio yn cofnodi'r pleidleiswyr hynny sydd wedi cael pecyn pleidleisio drwy'r post a'i ddychwelyd a'r rhai sydd wedi cael papur pleidleisio mewn gorsaf pleidleisio.

1.42 Mae natur wasgaredig ddigyswllt y cofrestri etholiadol ledled Prydain Fawr yn golygu nad yw'n bosibl archwilio cofrestri a gedwir gan wahanol Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyda'i gilydd ar hyn o bryd er mwyn nodi cofnodion dyblyg. Byddai cyflwyno system i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gymharu gwybodaeth am gofnodion ar gofrestri etholiadol ar bob un o'r 381 o gofrestri yn helpu i wella cywirdeb a chyflawnrwydd cofrestri etholiadol ymhellach a gallai hefyd helpu yn sylweddol i ymdrin â'r risg o bod rhai etholwyr yn pleidleisio mwy nag unwaith mewn etholiad perthnasol.

1.43 Gallai diwygio'r fframwaith presennol fel bod yn rhaid i bleidleisiwr sydd wedi cofrestru, yn ôl y gyfraith, mewn dwy ardal etholiadol wahanol (ac a gaiff felly bleidleisio mewn etholiadau lleol ar gyfer y ddau gyngor lleol gwahanol) ddewis ym mha ardal y byddant yn pleidleisio yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU hefyd leihau'r risg hon.

Camau nesaf: cofrestru a phleidleisio mewn mwy nag un ardal

Rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn ystyried a allai atebion posibl i nodi ceisiadau cofrestru dyblyg hefyd helpu i leihau'r risg y bydd pobl yn pleidleisio mewn mwy nag un etholaeth yn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Dylai'r Llywodraeth hefyd ystyried opsiynau eraill ar gyfer lleihau'r risg hon, fel ei gwneud yn ofynnol i bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ar gyfer mwy nag un ardal awdurdod lleol, yn ôl y gyfraith, ddewis ym mha un o'r ddau gyfeiriad hynny y byddant yn pleidleisio yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU.

Cydbwysu adnoddau cofrestru etholiadol

1.44 Mae ein hadroddiadau blaenorol ar weithredu system gofrestru etholiadol unigol wedi tanlinellu'r ffaith bod cyflwyno cofrestru ar-lein yn golygu bod pobl yn fwy tebygol o wneud cais i gofrestru pan gânt eu cymell gan etholiadau sydd ar y gorwel, yn hytrach nag mewn ymateb i gyswllt gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ystod y cyfnod canfasio blynyddol.⁴ Dengys ein dadansoddiad o 2017 unwaith eto fod nifer sylweddol o bobl yn dewis gwneud cais i gofrestru i bleidleisio'n uniongyrchol mewn ymateb i etholiadau mis Mai ac etholiad cyffredinol mis Mehefin.

1.45 Bu angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol brosesu nifer sylweddol o geisiadau cofrestru etholiadol yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2017, nad oeddent yn ddisgwyliedig nac wedi'u cynllunio o ran eu nifer na'u hamseru. Tra caiff Swyddogion Canlyniadau etholiadau Senedd y DU eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y DU am gostau gweinyddu'r etholiad, caiff Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu hariannu'n gyfan gwbl gan yr awdurdod lleol sydd wedi'u penodi. Mae hyn yn golygu y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled y DU wedi gorfod defnyddio eu cyllidebau blynyddol lleol i ddelio ag effaith digwyddiad etholiadol cenedlaethol nas cynlluniwyd.

1.46 Rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled y DU er mwyn adolygu cydbwysedd cyllid ac adnoddau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol fel y gellir sicrhau bod adnoddau priodol ar gael ar gyfer gweithgarwch etholiadol penodol yn ogystal â gweithgareddau parhau fel y canfas blynyddol o eiddo. Rydym hefyd yn cydnabod bod cwestiynau parhaus ynghylch effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac amseru'r canfas blynyddol presennol, ac rydym hefyd yn gweithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol

⁴ Y Comisiwn Etholiadol, [The December 2015 electoral registers in Great Britain](#) (Gorffennaf 2016).

a Swyddfa'r Cabinet i werthuso cynlluniau peilot i dreialu gwahanol ddulliau o weithredu.

Cynlluniau peilot canfas 2016

1.47 Yn ystod canfas 2016, profodd Swyddogion Cofrestru Etholiadol tair ardal awdurdod lleol effeithiolrwydd dau ddull gwahanol o gynnal canfas o gartrefi. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr gynnal canfas o gartrefi bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob cartref gael Ffurflen Ymholiad y Cartref a rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau y ceir ymateb i'r ffurflen honno (hyd yn oed os nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau) gan ddefnyddio o leiaf ddau nodyn atgoffa ac un ymweliad â'r cartref.

1.48 Mae costau sylweddol ynghlwm wrth yr ymarfer hwn ac mae cryn dipyn o'r amser a'r adnoddau yn mynd tuag at gael ymatebion gan gartrefi lle nad oes unrhyw newidiadau i'r pleidleiswyr cofrestredig. Cynlluniwyd y cynlluniau peilot hyn i brofi effeithiolrwydd dulliau gwahanol o ganfasio sy'n gofyn am lai o adnoddau.

1.49 Y prosesau a brofwyd oedd:


- **Dirnadaeth - Defnyddio data i bennu'r dull o ganfasio** (Birmingham a De Lakeland): dechreuodd hyn gydag ymarfer paru data rhwng y gofrestr etholiadol a data lleol eraill. Cafodd pleidleiswyr a allai gael eu paru eu ganfasio mewn ffordd ysgafnach na'r rhai na ellid eu paru.
- **Defnyddio Llythyrau Hysbysu Cartrefi yn lle Ffurflen Ymholiad y Cartref** (Ryedale): mae Llythyrau Hysbysu Cartrefi yn debyg i Ffurflenni Ymholiad y Cartref am eu bod yn rhestru'r pleidleiswyr cofrestredig mewn eiddo ond yn wahanol i Ffurflen Ymholiad y Cartref nid oes angen ymateb (ac nid oes gofyniad cyfreithiol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau eu bod yn cael ymateb). Fel rhan o'r cynllun peilot cysylltwyd â rhai cartrefi unwaith ar ffurf Llythyr Hysbysu Cartrefi ac nid anfonwyd unrhyw negeseuon atgoffa. Gallai cartrefi ymateb i'r Llythyr Hysbysu Cartrefi ar-lein neu dros y ffôn.

Canfyddiadau

1.50 Mae ein gwaith dadansoddi yn gyfyngedig i'r nifer fach o ardaloedd peilot yn 2016 a'r ffaith mai grwpiau rheoli bach a ddefnyddiwyd.⁵ Fodd bynnag, mae'r data sydd wedi dod i law yn awgrymu bod y dull presennol a ddeddfwyd o ganfasio yn fwy effeithiol na'r dulliau peilot o ran nodi symudiad y boblogaeth ac felly gadw cofrestr etholiadol cywir a chyflawn. Fodd bynnag, roedd amrywiadau o ran y gwahanol ddulliau a brofwyd.

⁵Neilltuodd pob ardal beilot nifer o gartrefi i grŵp rheoli. Bu'r cartrefi hyn yn destun prosesau canfasio safonol tra dilynodd cartrefi eraill, a neilltuwyd i grŵp triniaeth, y broses ddiwygiedig ar gyfer y cynllun peilot hwnnw.

1.51 Fel y mae Siart 2 isod yn ei ddangos, ar gyfer De Lakeland a Ryedale roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng nifer y pleidleiswyr newydd a ychwanegwyd a chofnodion afraid a ddilëwyd o'r cofrestrï yn dibynnu p'un a ddefnyddiwyd y dull presennol neu'r dull peilot o ganfasio.



1.52 Mae canlyniadau Birmingham, a brofodd yr un model â De Lakeland, yn dangos llai o fwch mewn ychwanegiadau rhwng y grŵp rheoli a'r grŵp triniaeth a lefel debyg o ddileu cofnodion. Mae'r gwahaniaeth rhwng Birmingham a De Lakeland yn debygol o fod oherwydd cywirdeb y broses paru data a gynhaliwyd ar ddechrau'r broses gan y ddau awdurdod.

1.53 Dylai'r set o gynlluniau peilot a gynllunnir yn 2017 ddarparu ystod ehangach o wybodaeth o ansawdd uwch ac felly bydd modd cynnal gwerthusiad cadarnach.

1.54 Mae'r cynlluniau peilot cychwynnol cyfyngedig hyn yn awgrymu y gallai'r prosesau a brofwyd sicrhau cryn arbedion o gymharu â'r canfas presennol. Mae hyn yn amlwg yn beth pwysig a chadarnhaol i'r awdurdodau lleol sy'n gorfod ariannu gweithgareddau cofrestru etholiadol.

1.55 Fodd bynnag, mewn unrhyw asesiad terfynol o newidiadau i ofynion y canfas presennol byddai angen i'r lleihad hwn mewn costau gael ei ystyried yn erbyn y canfyddiadau ynghylch pa mor dda y byddai'r prosesau posibl newydd yn cadw'r cofrestri. Er enghraifft, dros amser, byddai llai o achosion o ychwanegu at y cofrestri a dileu ohonynt yn cael effaith gronnol andwyol ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestri etholiadol oherwydd ni fyddai achosion o symud tŷ yn cael eu nodi.

1.56 Gallai unrhyw bleidlais newydd proffil uchel wrthbwysu'r fath ddirywiad drwy greu diddordeb ac felly geisiadau. Fodd bynnag, nodwn uchod fod rheoli gweithgareddau cyn pleidlais fawr eisoes yn her a fyddai, y gellid dadlau, hyd yn oed yn fwy petai'r cofrestri yn llai cyfredol ar ddechrau'r cyfnod etholiadol.

1.57 Fel y nodir uchod, nid yw'r data o 2016, sydd ond yn cwmpasu tri awdurdod lleol, yn ei gwneud yn bosibl i lunio casgliadau pendant o blaid nac yn erbyn y newidiadau peilot a chynhelir set bellach, mwy o faint o gynlluniau peilot yn ystod canfas 2017. Bydd y Comisiwn hefyd yn gwerthuso'r cynlluniau peilot hyn ac yn cyhoeddi ein canfyddiadau ym mis Mehefin 2018.

Camau nesaf: cydbwysu adnoddau cofrestru etholiadol

Rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled y DU er mwyn adolygu cydbwysedd cyllid ac adnoddau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol fel y gellir sicrhau bod adnoddau priodol ar gael ar gyfer gweithgarwch etholiadol penodol yn ogystal â gweithgareddau parhau fel y canfas blynyddol o eiddo.

Byddwn yn parhau i werthuso cynlluniau peilot er mwyn profi dulliau newydd o gynnal gweithgareddau canfasio blynyddol, a byddwn yn gweithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Llywodraeth y DU er mwyn ystyried goblygiadau'r gwerthusiadau hynny i ddyfodol y canfas blynyddol.

Gwneud y broses gofrestru etholiadol yn fwy unedig

1.58 Mae cyflwyno'r system gofrestru etholiadol unigol a gwasanaeth cofrestru ar-lein wedi trawsnewid y broses gofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr dros y tair blynedd diwethaf. Nawr mae angen i holl lywodraethau'r DU adeiladu ar y llwyddiant pwysig hwn, a pharhau i foderneiddio'r broses gofrestru etholiadol er mwyn ei gwneud yn symlach ac yn fwy hygyrch i bleidleiswyr ac yn fwy effeithlon i Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Rydym am weld camau cynnar i ddechrau datblygu agenda uchelgeisiol ar gyfer moderneiddio'r broses gofrestru etholiadol ymhellach dros y pum mlynedd nesaf.

1.59 Fel y nodwyd gennym eisoes yn ein cyfres o adroddiadau ar weithredu'r system gofrestru etholiadol unigol ym Mhrydain Fawr, credwn ei bod hi'n amser i'r DU esblygu'r system bresennol, sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar

bleidleiswyr yn cymryd camau i gofrestru eu hunain, er mwyn gwneud y broses gofrestru etholiadol yn fwy unedig â gwasanaethau cyhoeddus eraill.⁶ Mae hynny'n golygu ystyried prosesau cofrestru uniongyrchol neu awtomatig a allai greu cofrestru etholiadol mwy cywir a chyflawn mewn ffordd fwy effeithlon na'r prosesau canfasio presennol sy'n defnyddio adnoddau helaeth.

1.60 Nid yw'r heriau sy'n wynebu Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn unigryw i'r DU – mae amrywiaeth o ddemocratiaethau newydd a sefydledig ledled y byd wedi ystyried ymatebion i dueddiadau demograffig a chyfathrebu digidol sy'n newid yn gyflym, ac wedi symud i gyfeiriad gweithdrefnau cofrestru mwy uniongyrchol neu awtomatig. Gall y DU ddysgu o wledydd eraill o ran yr hyn sy'n gweithio, ac mae angen i ni gyflwyno newidiadau a all esgor ar welliannau sylweddol i gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestru etholiadol.

Integreiddio cofrestru etholiadol mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill

1.61 Mae poblogrwydd cofrestru ar-lein yn adlewyrchu disgwyliadau cynyddol y cyhoedd am argaeledd llwyfannau ar-lein ar gyfer cwblhau trafodion, gan gynnwys gwasanaethau'r llywodraeth. Mae argaeledd llwyfannau ar-lein i ddefnyddio ystod fwyfwy eang o wasanaethau cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd i wneud y broses gofrestru etholiadol hyd yn oed yn symlach i'r cyhoedd ac yn fwy effeithlon i Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

1.62 Mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol eisoes wedi gweithio gyda darparwyr addysg uwch lleol i integreiddio ceisiadau cofrestru etholiadol o fewn prosesau cofrestru myfyrwyr. Roedd hi'n ga cadarnhaol, wrth i'r Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil fynd ar ei hynt drwy'r Senedd yn gynharach eleni, fod Llywodraeth y DU wedi gallu cynnwys pwerau a fydd yn galluogi'r Swyddfa Myfyrwyr newydd i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig yn Lloegr weithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol i wella proses gofrestru etholiadol myfyrwyr. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau a'r Swyddfa Myfyrwyr i sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol a sefydliadau addysg uwch yn cael canllawiau effeithiol er mwyn eu helpu i wella proses gofrestru myfyrwyr.

1.63 Roeddem hefyd yn falch ein bod wedi gallu gweithio gyda Llywodraeth y DU cyn etholiad cyffredinol 2017 er mwyn sicrhau bod ystod eang o wefannau'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn cyfeirio at y gwasanaeth cofrestru ar-lein. Ar brif safle GOV.UK roedd y rhain yn cynnwys tudalennau trafniadaeth a thrwyddedau gyrru; tudalennau pasbort, fisa a gwasanaeth consylaidd; a thudalennau budd-daliadau a chredydau treth.

⁶ http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/197516/IER-Assessment-December-2015-registers.pdf

1.64 Mae gwledydd eraill wedi rhoi gweithdrefnau ar waith lle gellir gwneud cais i gofrestru fel pleidleisiwr ar y cyd â defnyddio gwasanaethau cyhoeddus eraill. Yr enghraifft fwyaf adnabyddus yw Deddf Cofrestru Pleidleiswyr Cenedlaethol UDA 1993 (neu'r "Motor Voter Act") sy'n gofyn i bob talaith yn yr UD gynnig cofrestru mewn asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus fel adrannau cerbydau modur. Mae democratiaethau eraill yn cynnig cyfleoedd tebyg, gan gynnwys yng Nghanada lle gall dinasyddion wneud cais i gofrestru pan fyddant yn cyflwyno eu ffurflenni treth blynyddol.

Camau nesaf: integreiddio cofrestru etholiadol mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill

Rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled y DU er mwyn ystyried opsiynau i alluogi pobl i wneud cais i gofrestru i bleidleisio wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein eraill gan gynnwys, er enghraifft, wrth wneud cais am drwydded yrru neu basbort neu wrth gyflwyno ffurflenni treth.

Gwell defnydd o ddata cyhoeddus

1.65 Ar hyn o bryd gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael gafael ar ddata lleol a gedwir gan awdurdodau lleol ac eraill er mwyn helpu i nodi darpar bleidleiswyr a rheoli eu cofrestru etholiadol, ac rydym wedi darparu canllawiau ar sut i nodi ffynonellau data priodol a sut i reoli a defnyddio'r data hynny. Hefyd, yn fuan, byddwn yn cyhoeddi adnodd arfer da sy'n defnyddio enghreifftiau o'r ffyrdd y mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi defnyddio data i wneud y cofrestru yn eu hardal leol yn fwy cywir a chyflawn.

1.66 Rydym am weld camau pellach yn cael eu cymryd gan holl lywodraethau'r DU er mwyn archwilio buddiannau posibl darparu data cyhoeddus nad yw'n lleol i bleidleiswyr a Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth helpu i nodi pobl sydd wedi newid cyfeiriad a diweddarau eu manylion gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, er enghraifft wrth wneud cais am drwydded yrru neu basbort. Mae'r profiad a gafwyd wrth gynnal yr ymarfer paru dogfennau cadarnhau wrth newid i IER ym Mhrydain Fawr hefyd yn dangos y potensial i symleiddio'r broses a ddefnyddir i ddilysu hunaniaeth etholwyr cyn eu hychwanegu at y gofrestr.

1.67 Yn gynharach eleni cafodd Deddf yr Economi Ddigidol Gydsyniad Brenhinol ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gan Senedd y DU. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau y bwriedir iddynt ei gwneud hi'n haws i gyrff cyhoeddus rannu data a gedwir ganddynt er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i ddinasyddion. Byddwn yn ystyried ymhellach gyda Rhaglen Moderneiddio Trefniadau Cofrestru Etholiadol Swyddfa'r Cabinet pa gyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r darpariaethau hyn i wella'r broses o lunio a chadw cofrestru etholiadol, yn arbennig ddefnyddio data sy'n ddigon dibynadwy er mwyn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol allu nodi pobl nas cofrestrwyd yn gywir yn well.

Camau nesaf: gwell defnydd o ddata cyhoeddus

Rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled y DU er mwyn gwella cyfleoedd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael gafael ar ddata oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill – yn enwedig lle caiff y data hynny eu cadw gan ddarparwyr cenedlaethol yn hytrach na darparwyr lleol – er mwyn eu galluogi i dargedu eu gweithgareddau gyda phleidleiswyr newydd neu'r sawl sydd wedi symud yn ddiweddar.

Cofrestru uniongyrchol neu awtomatig

1.68 Mae sawl gwlad eisoes wedi gweithredu mathau o gofrestru etholiadol uniongyrchol neu awtomatig er mwyn helpu i ateb heriau sy'n debyg i'r rhai sydd bellach yn wynebu Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys Awstralia, Canada a thaleithiau amrywiol yn yr UD. Mae'r systemau hyn yn galluogi'r rheini sy'n gyfrifol am gadw'r gofrestr etholiadol i gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig gan ddefnyddio gwybodaeth ddibynadwy y gellir ymddiried ynddi o ffynonellau cyhoeddus eraill, neu i ddiweddarau eu manylion pan fyddant yn symud heb i'r pleidleisiwr orfod "ailgofrestru" yn ei gyfeiriad newydd.

1.69 Yn Awstralia, mae deddfwriaeth yn caniatáu i Gomisiwn Etholiadol Awstralia gofrestru dinasyddion yn uniongyrchol neu ddiweddarau eu manylion ar y gofrestr etholiadol ar sail gwybodaeth gan asiantaethau eraill y llywodraeth, gan gynnwys yr asiantaethau nawdd cymdeithasol ffederal a thrwydded gyrru cenedlaethol. Mae'r Comisiwn yn ysgrifennu at ddarpar pleidleiswyr er mwyn eu hysbysu ei fod yn bwriadu ychwanegu eu henw at y gofrestr neu ddiweddarau eu manylion, tra hefyd yn rhoi'r cyfle i'r pleidleisiwr newid manylion os oes angen. Dengys data a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, yn ystod y chwe mis rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Mai 2017, y cafwyd ychydig o dan 55% o'r holl gofrestriadau newydd, ailgofrestriadau a chofrestriadau wedi'u diweddarau drwy ei raglen Cofrestru Uniongyrchol a Diweddarau Ffederal.⁷

1.70 Hefyd, dangosodd dadansoddiad diweddar o brosesau cofrestru pleidleiswyr awtomatig yn nhalaith Oregon yr UD amrywiaeth o fuddiannau i bleidleiswyr a gweinyddwyr etholiadol:

Mae'r fath brosesu awtomatig yn cryfhau democratiaeth drwy gynyddu nifer y pleidleiswyr. Gall ei symlrwydd arbed cryn gostau i daleithiau ac ardaloedd, gwneud y rhestrau cofrestru pleidleiswyr yn fwy cywir a chyfredol, a gwneud y system pleidleisio yn fwy diogel. Dyma'r cam

⁷ http://www.aec.gov.au/Enrolling_to_vote/Enrolment_stats/type/

rhesymegol nesaf wrth greu system cofrestru pleidleiswyr effeithlon, diogel a modern ar gyfer yr 21ain ganrif.⁸

Center for American Progress, 2017

1.71 Cydnabyddwn y byddai cyflwyno prosesau cofrestru awtomatig neu fwy uniongyrchol yn newid sylweddol i bolisi cofrestru etholiadol y DU, ac y gall fod pryderon hefyd ynghylch goblygiadau rhoi'r gorau i'w gwneud yn ofynnol i ddinasyddion unigol fod yn uniongyrchol gyfrifol am eu cofrestru etholiadol eu hunain. Serch hynny, credwn ei bod yn bwysig parhau i archwilio'r goblygiadau, y buddiannau posibl a chostau newidiadau mwy sylfaenol i fframwaith cofrestru etholiadol y DU, yn ogystal â'r gwelliannau mwy uniongyrchol a chynyddol a nodir uchod.

Camau nesaf: archwilio goblygiadau cofrestru uniongyrchol neu awtomatig

Rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled y DU er mwyn archwilio sut y gallai dull mwy integredig o gofrestru pleidleiswyr gynnwys mwy o ddefnydd o gofrestru uniongyrchol gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol, neu brosesau cofrestru mwy awtomatig (er enghraifft, cofrestru pobl ifanc yn uniongyrchol wrth iddynt gael rhif yswiriant gwladol).

⁸ Center for American Progress (Mehefin 2017) [Who Votes With Automatic Voter Registration? Impact Analysis of Oregon's First-in-the-Nation Program](#)